Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 53/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 09/05/2023

# Safbwyntiau'r Cyhoedd ar Iechyd Planhigion a Rhywogaethau Estron Goresgynnol

**Crynodeb Gweithredol**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Gan gydnabod nad yw plâu na chlefydau yn parchu ffiniau cenedlaethol, cyhoeddwyd Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr ar 9 Ionawr 2023. Nod un o ganlyniadau Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr (2023–2028) yw cyflawni cymdeithas sy'n gwerthfawrogi planhigion iach. Dylid bodloni hyn drwy godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd planhigion a choed iach a thrwy annog mabwysiadu ymddygiad cyfrifol ar draws cymdeithas.

1.2 Gan gydnabod y bygythiadau a'r effeithiau tebyg a achoswyd gan rywogaethau estron goresgynnol, cyhoeddwyd Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr ar 27 Chwefror 2023. Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth a cynyddu dealltwriaeth o effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol ymhlith cynulleidfaoedd targed allweddol, a'r cyhoedd pan fo hynny'n briodol, er mwyn sicrhau newid ymddygiad pan fo gweithgareddau'n peri risg o gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

## 2. Nodau ymchwil a methodoleg

2.1 Cynlluniwyd yr ymchwil i ddeall yn well agwedd cyhoedd Cymru tuag at ddeall ac ymgysylltu ag iechyd planhigion a choed, plâu a chlefydau, a rhywogaethau estron goresgynnol yng Nghymru. Nod y canlyniadau yw llywio polisi, ymchwil a gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd Llywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd coed a phlanhigion iach ac annog ymddygiad cyfrifol, yn unol â Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr (2023–2028).

2.2 Comisiynodd Is-adran Iechyd Planhigion ac Amddiffyn yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru Beaufort Research i gynnal arolwg o agweddau'r cyhoedd tuag at iechyd planhigion ac effaith rhywogaethau estron goresgynnol. Dosbarthwyd yr arolwg i sampl cwota o 1,000 o oedolion 16+ oed ledled Cymru gan ddefnyddio panel arolwg ar-lein. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 28 Chwefror a 20 Mawrth 2022. Defnyddiodd yr arolwg gwotâu i gael sampl â'r bwriad o adlewyrchu poblogaeth Cymru ar ddemograffeg oedran, rhywedd, awdurdod lleol a dosbarth cymdeithasol.

## 3. Canfyddiadau allweddol

### Safbwyntiau ar golli coed a phlanhigion oherwydd plâu a chlefydau, a rhywogaethau estron goresgynnol

3.1 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod pob un ond un o effeithiau planhigion a choed yn marw neu y mae'n rhaid cael gwared arnynt oherwydd plâu a chlefydau yn bwysig. Roedd effeithiau'n fwy pwysig i gyfranogwyr ar lefel genedlaethol na lleol.

3.2 Roedd ansawdd aer gwaeth/mwy o lygredd aer, colli carbon a ddelir/rhyddhau carbon o blanhigion a choed sy'n marw, a cholli bioamrywiaeth/natur yn bwysicach i ymatebwyr cenedlaethol a lleol. Ond roedd colli cysgod planhigion neu goed sy'n marw neu y mae'n rhaid eu symud oherwydd plâu a chlefydau yn llai pwysig i'r cyfranogwyr (59 y cant yn lleol a 69 y cant yn genedlaethol).

3.3 O ran yr effeithiau oherwydd rhywogaethau estron goresgynnol yn achosi niwed i'w hardal leol, roedd pob effaith yn bwysig i dros 65 y cant o'r ymatebwyr. Fel colli planhigion neu goed oherwydd plâu a chlefydau uchod, roedd colli bioamrywiaeth o rywogaethau estron goresgynnol gan achosi difrod yn eu hardal leol yn bwysig i'r mwyafrif o'r ymatebwyr. Roedd hyn oherwydd bod y ddwy rywogaeth goresgynnol trech yn cymryd lle rhywogaethau cynhenid a rhywogaethau goresgynnol gan gyflwyno clefydau newydd. Roedd cynnydd mewn risg llifogydd hefyd yn bwysig i nifer uchel o ymatebwyr (74 y cant). Golygfeydd llai deniadol / newid golwg y dirwedd oedd â'r gyfran isaf o ymatebwyr a ddywedodd fod hyn yn bwysig (67 y cant).

3.4 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr benywaidd a'r rhai dros 45 oed yn fwy tebygol o ddweud bod effeithiau colli planhigion a choed oherwydd plâu a chlefydau (yn lleol ac yn genedlaethol) ac effeithiau difrod rhywogaethau estron goresgynnol yn bwysig.

### Pwysigrwydd plâu a chlefydau ac amddiffyn planhigion a choed

3.5 Dywedodd yr ymatebwyr fod y broblem clefydau planhigion a choed yn bwysig ar lefelau personol, cymunedol, cymdeithas, a byd-eang. Roedd y cyfranogwyr fwyaf tebygol o ddatgan bod iechyd coed a phlanhigion yn bwysig ar raddfa fyd-eang (81 y cant). Wrth i'r lefel ddaearyddol gulhau, gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd ei fod yn bwysig. Dywedodd 67% fod iechyd coed a phlanhigion yn bwysig iddynt yn bersonol.

3.6 Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod amddiffyn planhigion a choed yn bwysig iddynt (85 y cant).

3.7 Roedd ymatebwyr 45+ oed yn fwy tebygol o ddweud bod iechyd coed a phlanhigion yn bwysig ar bob graddfa ddaearyddol a bod amddiffyn planhigion a choed rhag plâu a chlefydau yn bwysig.

### Ffactorau risg i iechyd planhigion a choed yng Nghymru

3.8 Sgoriodd yr ymatebwyr wybodaeth, ymwybyddiaeth, diffyg cymhelliant i fabwysiadu newid ymddygiad, a newid hinsawdd fel y risg uchaf i iechyd planhigion yng Nghymru. Roedd llai na hanner y cyfranogwyr yn credu bod planhigion a werthir ar-lein gan fanwerthwyr domestig, planhigion a werthir mewn siop gan fanwerthwyr arbenigol a mewnforion masnachol yn peri'r risg uchaf. Nododd rhwng 15 a 25 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ansicr ynglŷn â risg masnach a mewnforion personol a gwerthu planhigion a choed (drwy ateb 'ddim yn gwybod').

### Gwybodaeth, diddordeb a chamau gweithredu a gymerir ar iechyd planhigion ac atal rhywogaethau estron goresgynnol

3.9 Roedd yr ymatebwyr fwyaf tebygol o gymryd diddordeb yn eu gardd eu hunain, iechyd planhigion a choed, ac mewn gwirio am blâu a chlefydau—roedd 53 y cant a 44 y cant yn gwneud hyn bob amser neu'n aml. Roedd y cyfranogwyr lleiaf tebygol o adrodd am goeden neu blanhigyn yr oeddent yn credu bod pla neu glefyd arno (dywedodd 73 y cant nad oeddent byth yn gwneud hyn byth neu eu bod yn gwneud hyn yn anaml). Nid yw'n hysbys a oedd hyn oherwydd diffyg gwybodaeth am

adnabod neu adrodd plâu neu glefydau neu oherwydd nad oedd plâu a chlefydau i'w hadrodd. Roedd chwarter yr ymatebwyr yn gallu adnabod plâu a chlefydau bob amser neu'n aml.

3.10 Roedd ymatebwyr gwrywaidd 16–44 oed yn fwy tebygol o nodi diddordeb mewn iechyd planhigion nag ymatebwyr benywaidd 16–44 oed, ond roedd y gwrthwyneb yn wir ar gyfer ymatebwyr 45+ oed. Roedd ymatebwyr gwrywaidd rhwng 16–44 oed yn llai tebygol o fod wedi gweithredu—roeddent yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent erioed wedi adrodd planhigyn yr oeddent yn credu bod pla neu glefyd arno a'u bod wedi rhoi arian i grwpiau.

3.11 Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (94 y cant) nad ydynt wedi gweithio gyda grwpiau lleol na chenedlaethol i fonitro plâu a chlefydau planhigion a choed.

3.12 O ran camau i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol, dywedodd y cyfranogwyr gan amlaf nad ydynt erioed wedi gwneud y camau hyn. Dywedodd mwy na 50 y cant o'r ymatebwyr nad ydynt erioed wedi adrodd presenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol, rhoi arian i grwpiau sy'n ymwneud â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol na gwirfoddoli gyda grwpiau i helpu i reoli rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'r tri datganiad hyn yn ymwneud ag ymatebwyr yn gweithredu yn hytrach na gwybodaeth am rywogaethau estron goresgynnol, felly gallent adlewyrchu rhwystrau i weithredu i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol. Roedd y datganiad sy'n ymwneud â gwybodaeth am gamau sylfaenol i'w cymryd i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol yn eu gardd neu ardal leol yn berthnasol i'r nifer mwyaf o'r ymatebwyr allan o'r holl ddatganiadau (er mai i raddau bach yr oedd hyn—dywedodd 13 y cant fod hyn yn berthnasol iddynt yn aml). O'u dadansoddi yn ôl oedran, roedd ymatebwyr rhwng 16–44 oed yn fwy tebygol o ddweud nad oedd datganiadau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth erioed wedi bod yn berthnasol iddynt (h.y., heb gael yr wybodaeth), yn y cyfamser roedd ymatebwyr 45+ oed yn fwy tebygol o ddweud nad oedd erioed wedi gweithredu

3.13 Dywedodd dros 70 y cant o'r ymatebwyr y byddai pob mesur bioddiogelwch a gyflwynir iddynt yn helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Y mesurau bioddiogelwch a welwyd gan yr ymatebwyr fel rhai sy'n helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol fwyaf oedd: arweiniad ar sut i reoli neu ddileu rhywogaethau goresgynnol; gosod arwyddion, arweiniad neu offer glanhau mewn mannau cyhoeddus; a hybu'r defnydd o rywogaethau cynhenid mewn mannau preifat a chyhoeddus.

### Ymchwilio a chael gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion a choed

3.14 Nid oedd 75% o'r ymatebwyr wedi mynd ati i chwilio na gofyn am wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion a choed. Nid oedd 53% o'r ymatebwyr yn cofio gweld, darllen na chlywed erioed am blâu na chlefydau planhigion na choed. Mae hyn yn dangos nad oedd angen i'r ymatebwyr fynd ati i chwilio am wybodaeth er mwyn gweld, clywed neu ddarllen am blâu a chlefydau planhigion a choed.

3.15 O'r rhai oedd wedi gweld gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion a choed, roedd bron i hanner cant y cant yn cytuno bod yr wybodaeth honno yn hawdd i'w chanfod ac yn hawdd i'w deall. Roedd ymatebwyr 45+ oed yn fwy tebygol nag ymatebwyr rhwng 16–44 oed o nodi bod gwybodaeth yn hawdd ei chanfod a'i deall.

3.16 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr mewn galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1) yn fwy tebygol na'r rhai mewn swyddi gwaith llaw, gwaith achlysurol, y rhai sy'n ddi-waith sy'n ceisio budd-daliadau'r wladwriaeth neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE) o gytuno â'r datganiadau'n ymwneud ag ymchwilio a chael gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion a choed.

### Ffactorau sy'n atal cymryd camau i wella iechyd planhigion/coed

3.17 Mae canfyddiadau'n awgrymu bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu bod iechyd planhigion yn bwysig. Dywedodd 63% o'r ymatebwyr nad oedd peidio â malio, na'r gred nad yw clefydau planhigion yn cael unrhyw effaith wirioneddol arnynt yn eu hatal rhag gweithredu.

3.18 Bod yn ddiarwybod pa gamau i'w cymryd, bod heb yr adnoddau (e.e. arian) i wneud yr hyn sydd ei angen a bod heb yr awdurdod i wneud yr hyn sydd ei angen oedd y ffactorau pennaf a oedd yn atal ymatebwyr rhag gweithredu.

3.19 Roedd ymatebwyr gwrywaidd ac ymatebwyr 16–44 oed yn fwy tebygol o nodi rhwystrau a'u rhwystrodd rhag gweithredu ar iechyd planhigion nag ymatebwyr benywaidd ac ymatebwyr 45+ oed.

3.20 Dylanwadodd gradd gymdeithasol, y penderfynir arni gan statws galwedigaeth a chyflogaeth, ar yr ymatebion i'r datganiadau canlynol: Ni allaf helpu'n gorfforol, does gen i ddim adnoddau (e.e. arian i wneud yr hyn sydd ei angen) ac nid oes gen i amser. Damcaniaethir bod perthynas sylfaenol rhwng yr adnoddau a ddisgrifir yn y datganiadau (amser, arian, iechyd) a galwedigaeth neu statws cyflogaeth sy'n dylanwadu ar y datganiadau yr effeithir arnynt gan radd gymdeithasol. Roedd ymatebwyr mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, ymatebwyr di-waith ac ymatebwyr a oedd yn ceisio budd-daliadau'r wladwriaeth neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE) yn fwy tebygol o ddatgan bod diffyg adnoddau a diffyg awdurdod yn eu hatal rhag gweithredu nag ymatebwyr mewn galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1).

3.21 Roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gallu helpu'n gorfforol, ac nad oedd amser yn eu hatal rhag gweithredu.

### Adolygu'r dystiolaeth bresennol

3.22 Yn sgil dadansoddi a dehongli'r arolwg, cynhaliwyd adolygiad cyflym nad oedd yn gynhwysfawr o'r dystiolaeth bresennol i ddeall a oedd canfyddiadau allweddol yr arolwg yn cael eu hadlewyrchu yn y sylfaen dystiolaeth ehangach.

3.23 Yn gyffredinol, cyfyngedig oedd y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â sut mae nodweddion gwahanol yn effeithio ar faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd a'r amgylchedd ac mae llenyddiaeth hefyd yn awgrymu bod angen mwy o ymchwil (GIG Cymru a Phrifysgol Bangor, 2022). Mae peth ymchwil diweddar wedi nodi bod benywod yn fwy tebygol o gymryd diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd sy'n cyd-fynd yn fras â phatrwm y canfyddiadau sydd yn yr adroddiad hwn.

## 4. Casgliadau

4.1 Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod iechyd planhigion a choed yn bwysig ar draws graddfeydd daearyddol, yn enwedig ar lefel fyd-eang. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn ystyried amddiffyn planhigion a choed yn bwysig.

4.2 Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o effeithiau colli coed a phlanhigion oherwydd plâu a chlefydau (yn genedlaethol ac yn lleol) a difrod i'r ardal leol gan rywogaethau estron goresgynnol yn bwysig i'r ymatebwyr. Yn benodol, ansawdd aer gwaeth a lefelau carbon uwch yn yr atmosffer o ganlyniad i golli planhigion a choed oherwydd plâu a chlefydau, lefelau uwch o lifogydd o ganlyniad i ddifrod gan rywogaethau estron goresgynnol a cholli bioamrywiaeth yn deillio o golli coed oherwydd plâu a chlefydau ac o ddifrod gan rywogaethau estron goresgynnol ar yr ardal leol.

4.3 Ymddengys fod gan yr ymatebwyr ddiffyg gwybodaeth am risgiau penodol ar iechyd planhigion, gan adrodd hyn fel y rheswm mwyaf tebygol dros eu hatal rhag gweithredu. Felly, mae'r canfyddiadau'n dangos y gallai gwella ymwybyddiaeth o blâu a chlefydau planhigion a choed a gwybodaeth am sut i weithredu fod yn fuddiol.

4.4 Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi gweithio gyda grwpiau i fonitro plâu a chlefydau planhigion a choed, mynd ati i chwilio am wybodaeth nac yn cofio eu bod wedi gweld, darllen neu glywed am blâu na chlefydau planhigion a choed. Er nad oedd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr ddiddordeb mewn mynd ati i ymchwilio i iechyd planhigion, roedd ychydig dros 40 y cant ohonynt yn cofio cael gwybodaeth am hyn.

4.5 Dywedodd yr ymatebwyr mai arweiniad, arwyddion a hybu rhywogaethau cynhenid a fyddai'n helpu fwyaf i reoli neu ddileu rhywogaethau goresgynnol.

4.6 Roedd ymatebwyr 45+ oed ac ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o ddweud bod datganiadau'n bwysig neu'n ddefnyddiol nac ymatebwyr 16–44 oed ac ymatebwyr gwrywaidd. Roedd ymatebwyr gwrywaidd yn fwy tebygol o adrodd rhwystrau rhag cymryd camau i gefnogi iechyd planhigion. Byddai'n fuddiol archwilio'r gwahaniaeth rhywedd a nodwyd yn y sampl ymhellach i nodi a ddylid cynnwys dynion mewn gweithredoedd i hybu iechyd planhigion, a sut i wneud hynny.

4.7 Roedd ymatebwyr 16–44 oed yn fwy tebygol o adrodd diffyg gwybodaeth am iechyd planhigion, plâu a chlefydau a dulliau atal a allai ddangos cyfle i dargedu adnoddau i hybu gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol o weithredu, gwirfoddoli, rhoi a gweithio gyda grwpiau i fonitro plâu a chlefydau. Gellid gwneud rhagor o waith segmentu i archwilio hyn ymhellach. Roedd ymatebwyr iau hefyd yn llai tebygol o ddweud bod rhwystrau yn eu hatal rhag gweithredu i wella iechyd planhigion a choed ac roeddent yn fwy tebygol o fod yn bryderus am newid hinsawdd.

4.8 Nid oedd yn ymddangos bod gradd gymdeithasol (h.y. lefel galwedigaeth) na rhanbarth yr ymatebwr wedi effeithio ar atebion yn sylweddol, ar wahân i faterion y gellid eu cysylltu â chanlyniadau galwedigaeth neu incwm. Er enghraifft, roedd ymatebwyr a chanddynt swyddi gwaith llaw neu achlysurol, pensiynwyr gwladol a'r rhai a oedd yn derbyn budd-daliadau y wladwriaeth yn fwy tebygol o adrodd bod diffyg adnoddau (arian, amser) yn eu rhwystro rhag gweithredu. Roedd ymatebwyr â swyddi rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol yn fwy tebygol o fynd ati i chwilio am wybodaeth neu o gofio gweld gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion a choed nag ymatebwyr mewn swyddi llaw neu swyddi achlysurol, ymatebwyr a oedd yn hawlio budd-daliadau y wladwriaeth neu bensiynwyr gwladol.

### Argymhellion ar gyfer ymchwil yn y dyfodol

4.9 Er mwyn adeiladu ar ganfyddiadau'r arolwg hwn, argymhellir archwilio'r canfyddiadau hyn yn ansoddol i ddeall rhai o'r rhesymau sydd y tu ôl i'r patrymau ymateb ac i brofi'r canfyddiadau ymhellach. Byddai hyn yn cefnogi'r nod o gyflawni canlyniad strategaeth bioddiogelwch "cymdeithas sy'n gwerthfawrogi planhigion" drwy ddeall lefelau ymwybyddiaeth a'r ffordd orau o hybu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a'r gallu a'r cymhelliant i weithredu.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Palma, R. (2023). Safbwyntiau'r Cyhoedd ar Iechyd Planhigion a Rhywogaethau Estron Goresgynnol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad rhif GSR 53/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/barn-y-cyhoedd-am-iechyd-planhigion-rhywogaethau-goresgynnol-estron

Rhai'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Rossana Palma
Is-adran Gwybodaeth Ymchwil Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron Rhif Llyfr Safonol Rhyngwladol Digidol 978-1-80535-857-2